



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau technegol ar gyfer Gyrfa Cymru

Sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu

Canllawiau

Dogfen ganllawiau: 257/2019

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Yn disodli dogfen wybodaeth: 218/2017

Canllawiau technegol ar gyfer Gyrfa Cymru

Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu'n bennaf at Yrfa Cymru. Gall fod o ddiddordeb hefyd i gyrff ac unigolion a fydd yn cynnwys penaethiaid sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru; penaethiaid sefydliadau addysg bellach arbenigol; pobl ifanc; rhieni/gwarcheidwaid; awdurdodau addysg lleol; adrannau gwasanaethau cymdeithasol; a byrddau iechyd lleol.

Trosolwg

Diben y ddogfen hon yw cyflwyno cyngor a chanllawiau ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran rôl Gyrfa Cymru ar gyfer y broses asesu o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 a sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol.

Camau i'w cymryd

Mae'n ofynnol bod Gyrfa Cymru yn ystyried y cyngor a'r canllawiau a amlinellwyd yn y ddogfen hon.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Isadran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Post16ALN@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ag-anawsterau-dysgu-canllawiau-ar-gyfer-gyrfa-cymru>

Dogfennau cysylltiedig

Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol (2020)
Canllawiau Technegol i Sefydliadau Addysg Bellach Arbenigol (2020)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cyd-destun statudol	4
Rôl cynghorwyr gyrfaoedd	5
Pontio i addysg bellach	7
Cydsynio	9
Llunio adroddiad asesu	11
Llunio cais am gyllid	21
Asesiad Adran 140: cynllun dysgu a sgiliau	32
Ffurflen darpariaeth addysg bellach brif ffrwd	36
Ffurflen manylion darpariaeth addysg bellach arbenigol	39
Cais am/diweddariad i ffurflen asesiad Adran 140	43
Cais i ariannu lle mewn sefydliad addysg bellach arbenigol	44

Cyflwyniad

1. Diben y ddogfen hon yw cyflwyno cyngor a chanllawiau ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y broses asesu o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 er budd cynghorwyr gyrfaedd sy'n gweithio i Gyrfa Cymru. Mae hyn yn cynnwys rôl cynghorwyr gyrfaedd mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu (gweler yr adran 'cyd-destun statudol' ar dudalen 4 ar gyfer diffiniad) mewn sefydliadau addysg bellach (AB) arbenigol. Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu drwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru.
2. Mae canllawiau ar lunio adroddiad asesu o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000") eisoes wedi'u datblygu ar gyfer cynghorwyr gyrfaedd. Mae'r ddogfen hon yn disodli ac yn ategu'r canllawiau gwreiddiol.
3. Mae'r polisi a'r broses a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar ariannu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed ag anawsterau dysgu sydd angen mynediad at ddarpariaeth arbenigol wedi'u cyflwyno yn y canllawiau polisi '*sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol*'¹. Fodd bynnag, mae'r ddogfen canllawiau technegol hon yn darparu rhagor o wybodaeth fanwl am sut y bydd cynghorwyr gyrfaedd yn cyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau yn unol â'r polisi hwnnw, ac yn arbennig y polisi a'r broses y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynnal asesiad adran 140.
4. Nid bwriad y ddogfen hon yw bod yn ganllaw 'absoliwt' wrth asesu anghenion person ifanc, ac nid yw'n pennu gofynion caeth sydd angen eu bodloni. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorwyr gyrfaedd weithredu mewn ffordd hyblyg a chyfrifol er mwyn nodi anghenion addysg a hyfforddiant person ifanc ag anawsterau dysgu a nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion dynodedig. Pan gofynnir am ddarpariaeth arbenigol, mae'n bwysig bod gwybodaeth briodol yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus. Lle ystyrir bod darnau penodol o wybodaeth neu'r ffordd y cânt eu cyfleu yn bwysig i sicrhau proses effeithiol ac amserol o wneud penderfyniadau, mae'r canllawiau hyn yn defnyddio'r geiriau **rhaid** neu **mae'n hanfodol**. Pan na fydd yn bosibl i'r cynghorwyr gyrfaedd ddarparu'r darnau hyn o wybodaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio bod yn hyblyg.
5. Bydd y broses o ddilyn y canllawiau hyn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod asesiadau yn cydymffurfio ag adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.
6. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru wahodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddisodli'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud ag addysg ôl-16 i bobl ifanc ag anawsterau dysgu â deddfwriaeth i gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Pasiwyd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2016, ac fe ddaeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Disgwylir i'r Ddeddf² ddechrau cael ei rhoi ar waith fesul cam o fis Medi 2021 ymlaen. Fodd bynnag, tan i'r newid hwn ddigwydd, bydd y gyfraith

¹ <https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ifanc-ag-anawsterau-dysgu-mewn-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol>

² Mae [Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#) yn cynnwys darpariaeth i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i sicrhau darpariaeth arbenigol o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Os bydd y ddarpariaeth hon yn dod yn ddeddf bydd yn disodli'r prosesau a nodir yn y ddogfen hon yn eu cyfanrwydd oherwydd bydd swyddogaeth Gyrfa Cymru wrth sicrhau darpariaeth arbenigol yn dod i ben.

bresennol yn parhau mewn grym. Fodd bynnag, tan i'r newid hwn ddigwydd, bydd y gyfraith bresennol yn parhau mewn grym. Nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys unrhyw wybodaeth am rôl cynghorwyr gyrfaedd mewn unrhyw system ddeddfwriaethol yn y dyfodol, ac nid yw'n nodi trefniadau pontio yn arwain at y system honno.

Cyd-destun statudol

7. Ystyrir bod gan unigolyn anhawster dysgu:
 - (a) os yw'n ei chael yn sylweddol anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o unigolion ei oedran, neu,
 - (b) os oes ganddo anabledd sydd naill ai'n ei atal neu'n rhwystro iddo rhag defnyddio'r math o gyfleusterau a ddarperir yn gyffredinol gan sefydliadau sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 (gweler adran 41(5) o Ddeddf 2000 Act).
8. Ni ddylid ystyried bod gan rywun anhawster dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu'r math o iaith) y cânt eu haddysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu'r math o iaith) sydd wedi'i siarad ar unrhyw adeg yn eu cartref³.
9. Mae swyddogaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sicrhau'r ddarpariaeth o gyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ar gyfer ariannu lleoliadau, yn cynnwys rhai mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol, wedi'u nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 ('Deddf 2000'), ac mae'r prif ddarpariaethau wedi'u crynhoi yn yr Atodiad.
10. Yn gryno, mae rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth cyfleusterau amrywiol ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ac mae ganddynt bwerau i ariannu pobl ifanc a sefydliadau addysg bellach. Wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw dyledus i anghenion unigolion ag anawsterau dysgu ac yn benodol, i unrhyw adroddiad o asesiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei drefnu dan adran 140. Mae'n rhaid trefnu'r asesiadau hynny ar gyfer pobl ifanc sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac sy'n gadael ysgol i fynd i addysg bellach, a gellir eu trefnu ar gyfer pobl ifanc mewn amgylchiadau eraill hefyd.
11. Os na all Llywodraeth Cymru sicrhau y darperir y cyfleusterau cywir ar gyfer addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ag anawsterau dysgu oni bai ei bod hefyd yn sicrhau y darperir llety preswyl, yna mae'n rhaid iddi sicrhau y darperir llety preswyl.

Crynodeb o'r effaith

12. O'u cymryd gyda'i gilydd, un o effeithiau ymarferol adrannau 31, 32, 41 a 140 o Ddeddf 2000 yw ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylai gyllido lleoliad person ifanc sydd ag anawsterau dysgu mewn sefydliad addysg bellach arbenigol.

³ Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 41(6).

Rôl cynghorwyr gyrfaoedd

13. Mae cynghorwyr gyrfaoedd yn cynnal asesiadau adran 140 ar ran Llywodraeth Cymru. Fel arfer mae hyn yn rhan o'r broses o bontio yn ystod blwyddyn olaf y person ifanc mewn addysg orfodol (gweler yr adran 'Pontio i Addysg Bellach' ar dudalen 7).
14. Dylai cynghorwyr gyrfaoedd roi sylw i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sylfaen i'w gwaith ar ran Llywodraeth Cymru wrth gynnal asesiad adran 140. Rôl y cynghorydd gyrfaoedd yw darparu cyngor a chymorth ar gyfer nodi a deall y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael i'r unigolyn.
15. Cyfrifoldeb y cynghorwyr gyrfaoedd, wrth gynnal asesiadau adran 140, yw llunio adroddiad asesu ar gyfer y person ifanc. Dylai cynghorwyr gyrfaoedd wneud pob ymdrech resymol i ddod o hyd i'r dystiolaeth sydd ar gael a fydd yn eu galluogi i nodi anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc a sicrhau'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Yn ogystal, os yw darpariaeth mewn sefydliad AB arbenigol wedi'i nodi, mae'r cynghorydd gyrfaoedd yn gyfrifol am gyflwyno cais am gyllid i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth arbenigol.
16. Rôl bwysig arall y cynghorydd gyrfaoedd yw cyfathrebu â'r person ifanc a'i riant/gofalwr. Mae'n hanfodol bod y cynghorydd gyrfaoedd yn sicrhau bod y person ifanc a'i riant/gofalwr yn cyfrannu at y broses asesu ac yn cael gwybod am unrhyw gynnydd, yn enwedig os yw cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth arbenigol. Os oes angen i'r cynghorydd gyrfaoedd gysylltu â Llywodraeth Cymru am gyngor penodol, bydd disgwyl iddo drosglwyddo'r cyngor hwnnw i'r rhiant/gofalwr a pharhau i ymgysylltu â nhw.
17. Os yw pobl ifanc yn derbyn addysg orfodol, bydd disgwyl i gynghorwyr gyrfaoedd ymgysylltu â'r broses adolygu pontio, gan gychwyn o Flwyddyn 9 ymlaen. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, ni ddylai cynghorwyr gyrfaoedd drafod ansawdd darpariaeth neu briodoldeb lleoliad ysgol y person ifanc. Pan fydd person ifanc yn mynychu ysgol, yr ysgol a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y person ifanc ac am ei ddarpariaeth addysg arbennig. Os oes pryderon yn codi yn y cyswllt hwn, dylid cynghori'r person ifanc neu ei riant/gofalwr i gysylltu â'r person priodol.
18. Pan fo gan y person ifanc ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) cyfredol, rhaid i'r cynghorydd gyrfaoedd fod yn berffaith sicr bod y person ifanc yn ei flwyddyn olaf o addysg cyn dechrau asesiad adran 140, hynny yw, bod yr awdurdod lleol yn bwriadu dirwyn y datganiad i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd honno. Pan fo person ifanc yn ystyried gadael yr ysgol yn gynnar neu fod yr ysgol yn argymhell bod y person ifanc yn gadael yr ysgol yn gynnar, mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am y person ifanc â datganiad o AAA nes bod y datganiad hwnnw yn cael ei ddirwyn i ben. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol, nid yr ysgol, yw dirwyn y datganiad i ben. Ni ddylid ystyried addysg bellach, boed mewn sefydliad addysg bellach prif ffrwd neu mewn sefydliad arbenigol, fel dewis amgen tra bo'r person ifanc yn dal i fod â datganiad.
19. Mae'n rhaid i'r cynghorydd gyrfaoedd hefyd nodi ei rôl yn glir ar gyfer y pobl ifanc hynny sydd eisoes yn manteisio ar ddarpariaeth ôl-16. Os nad yw'r ddarpariaeth ychwanegol hon yn gysylltiedig ag anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc, bydd rhaid i'r asiantaeth berthnasol, h.y. gwasanaethau cymdeithasol, dderbyn cyfrifoldeb arweiniol ar gyfer yr unigolyn hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r cynghorwyr gyrfaoedd gyfeirio'r person ifanc neu'r rhiant/gofalwr at yr asiantaeth berthnasol.

20. Mae rôl cynghorwyr gyrfaedd yn ystod y broses asesu adran 140 wedi'i nodi'n fanylach yn y ddogfen hon. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorwyr gyrfaedd weithredu'n annibynnol, ystyried y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael yn wrthrychol, a dod i gasgliad ar sail eu barn broffesiynol.
21. Dan amgylchiadau lle mae barn broffesiynol y cynghorydd gyrfaedd yn wahanol i safbwyntiau'r person ifanc neu ei riant/gofalwr, dylai'r cynghorydd gyrfaedd weithredu yn unol â'r canllawiau yn y ddogfen hon.

Pontio i addysg bellach

22. Gall pontio o ysgol i sefydliad dysgu newydd fod yn amser anodd i unrhyw berson ifanc. Mae pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu mewn perygl penodol o beidio â phontio'n llwyddiannus os nad yw cynlluniau priodol ac amser digonol wedi'u rhoi ar waith. Gall hyn effeithio ar eu gallu i barhau i ddysgu a/neu gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd.
23. Bydd y broses o nodi'n glir anghenion addysg a hyfforddiant person ifanc, a'r ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny, yn helpu person ifanc i bontio'n llwyddiannus i'r sector AB.
24. Mae'r broses gynllunio ar gyfer pontio i'w gweld yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru⁴ ac mae'n cychwyn ym Mlwyddyn 9. Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys asiantaethau amrywiol yn gynnar yn y broses bontio AAA, er mwyn i gynlluniau gofal ac asesiadau amlddisgyblaethol perthnasol gael eu paratoi, a allai gynnwys darparu cyfleusterau addysg bellach, a chyfrannu at Gynllun Trawsnewid person ifanc.
25. Mae Pennod 9 o God Ymarfer AAA Cymru yn nodi'r broses ar gyfer pontio o'r ysgol ac yn disgrifio swyddogaethau'r asiantaethau perthnasol. Mae'n rhaid i'r broses gynllunio ar gyfer pontio a/neu adolygiad blynyddol gael ei chwblhau mewn ffordd ddiduedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Felly, dylai'r cyfarfod hwn neu'r cyfarfodydd hyn ar gyfer y person ifanc ond cynnwys y rhai sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer AAA. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau AB arbenigol gymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd adolygu fel arfer, gan y byddai'n anodd gweithredu'n ddiduedd wrth drafod opsiynau priodol sydd ar gael i'r person ifanc.
26. Os yw'r asesiad yn ymwneud â pherson ifanc sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, dylai fod yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer pontio sy'n gysylltiedig â datganiadau o'r fath gan gwblhau'r broses honno i bob pwrpas. Disgwylir y bydd pobl ifanc sydd â datganiad o AAA yn eu hysgolion presennol eisoes yn cael cysylltiad â chynghorydd gyrfaedd drwy'r adolygiad blynyddol o'r datganiad AAA.
27. Os yw awdurdod lleol (ALI) wedi sefydlu protocol ar gyfer pontio, dylai'r cynghorydd gyrfaedd ofyn am gael ei gynnwys yn y protocol. Os yw cynghorydd gyrfaedd yn cael ei eithrio yn fwriadol, dylai hysbysu Llywodraeth Cymru.
28. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl sefydliadau AB fod yn agored i geisiadau gan gynghorwyr gyrfaedd i asesu a ydynt yn gallu diwallu anghenion penodol person ifanc. Os yw cynghorwyr gyrfaedd yn ei chael yn anodd darbwylo sefydliadau AB i gymryd rhan yn y broses asesu, dylent roi gwybod i Lywodraeth Cymru.
29. Mae barn y sefydliad addysg bellach prif ffrwd ynghylch i ba raddau y gall ddiwallu anghenion person ifanc yn rhan bwysig o'r broses asesu. Felly mae'n hanfodol bod sefydliadau addysg bellach prif ffrwd yn ymwneud yn gynnar â'r gwaith o gynllunio'r broses o bontio a'r broses asesu adran 140 ddilynol. Os oes modd, caiff ei ystyried yn arfer da i sefydliadau AB prif ffrwd ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol â'r ysgolion sy'n eu

⁴ Caiff Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei gyhoeddi yn unol ag adran 313 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran IV ('Anghenion Addysgol Arbennig') o'r Ddeddf i roi sylw i ddarpariaethau'r Cod.

bwydo er mwyn rhannu gwybodaeth am y ddarpariaeth sydd ar gael yn eu lleoliad a nodi'n gynnar anghenion penodol disgyblion ysgol. Hefyd, caiff ei ystyried yn arfer da i sefydliadau AB prif ffrwd ac arbenigol ymgysylltu â'i gilydd ynghylch pobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd eisiau symud ymlaen i addysg ôl-16, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig yn cael ei phenderfynu a'i rhoi ar waith yn ymarferol.

30. Wrth benderfynu ar ddarpariaeth, nid oes angen i'r person ifanc ymweld â'r sefydliad addysg bellach bob tro er mwyn i'r sefydliad addysg bellach prif ffrwd lleol benderfynu a all ddiwallu anghenion person ifanc. Pan fo gan berson ifanc anghenion cymhleth a chyfannol sylweddol, dylai'r cynghorwr gyrfaedd drafod â'r sefydliad AB prif ffrwd a oes yn rhaid i'r person ifanc ymweld â'r lleoliad, neu a ellir gwneud penderfyniad ei bod yn amlwg na allai ddiwallu anghenion y person ifanc, ar sail disgrifiad manwl o anghenion y person ifanc.

Cydsynio

31. Yn ystod y broses asesu, bydd angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â dewisiadau gyrfa ar gyfer y person ifanc. Mae'n bwysig bod person ifanc yn cael ei gynnwys a'i fod yn deall y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn ei gylch. Os oes modd, dylai'r person ifanc ei hun wneud penderfyniad am ei ddyfodol. Ni ddylai'r ffaith fod gan berson ifanc anhawster dysgu ei atal rhag cymryd rhan mewn proses o wneud penderfyniadau, ac ni ddylai arwain at ragdybiaeth nad yw'n gallu gwneud penderfyniad dros ei hun.
32. Yn ogystal â bod y person ifanc yn gwneud penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw ddewisiadau gyrfa posibl, bydd angen i'r cynghorydd gyrfaedd sicrhau cytundeb y person ifanc, ar lafar neu'n ysgrifenedig, i rannu unrhyw wybodaeth am yr asesiad (yn gynnar yn y broses asesu) neu i rannu deiliant yr asesiad terfynol ag asiantaethau perthnasol, gan gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Os yw'r person ifanc o dan 16 oed, bydd angen sicrhau cydsyniad y rhiant cyn rhannu'r wybodaeth hon.
33. Bydd angen i gynghorwyr gyrfaedd ddeall a oes gan y person ifanc perthnasol y galluedd meddyliol i gydsynio i'r ddarpariaeth a nodwyd, waeth a yw hynny'n rhan o'r asesiad neu o'r broses ymgeisio am gyllid. Bydd angen i gynghorydd gyrfaedd wneud hyn yn ystod y broses asesu. Os oes pryderon ynglŷn â galluedd meddyliol person ifanc, bydd adran gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol perthnasol yn arwain asesiad o alluedd meddyliol y person ifanc. Petai'r cynghorydd gyrfaedd yn cael unrhyw drafferth i gael asesiad o alluedd meddyliol drwy adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol perthnasol, dylai gysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyngor cyn gynhared â phosibl yn ystod y broses.
34. Os yw asesiad awdurdod priodol wedi dangos nad oes gan y person ifanc allu digonol i wneud cyfraniad ystyrlon at y broses asesu, mae'n rhaid i'r cynghorydd gyrfaedd gydymffurfio â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005⁵ a Chod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol⁶.
35. Os yw cydsyniad yn ymwneud â sefydliad AB arbenigol, bydd angen i Lywodraeth Cymru wybod a yw cydsyniad dilys yn ymwneud â galluedd meddyliol yr unigolyn wedi'i sicrhau, ynghyd â'r manylion cysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod budd pennaf a hawliau dynol y person ifanc yn cael eu diogelu'n briodol. Hefyd, bydd yn helpu i benderfynu a ddylid cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer lleoliadau mewn sefydliadau arbenigol, ac ar ba delerau, neu sut i ymdrin â'r cais am gyllid. Mewn rhai achosion, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen gwneud cais i'r llysoedd i awdurdodi'r lleoliad. Nes bod cydsyniad wedi'u gytuno, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cais am leoliad arbenigol.
36. Mae achosion lle gallai lleoliad arwain at golli rhyddid yn gymhleth iawn. Mae'r mecanweithiau sydd ar gael i awdurdodi lleoliadau yn yr achosion hyn yn amrywio, gan ddibynnu ar natur y sefydliad lle y bwriedir gwneud y lleoliad. Am y rheswm hwn, gall gymryd mwy o amser i ymdrin â chais am gyllid ar gyfer lleoliad mewn achosion lle nad yw'r materion hyn wedi'u datrys cyn cyflwyno'r cais am gyllid.

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/contents>

⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/mental-capacity-act-code-of-practice.cy>

37. Os yw penderfyniad galluedd meddyliol wedi'i wneud ar ran person ifanc ar gyfer lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol, mae'n rhaid i gopïau o'r dogfennau perthnasol (gweler paragraff 97(j)) gael eu rhoi i Lywodraeth Cymru, lle y bo hynny'n berthnasol, ynghyd â'r cais am gyllid. Ni all Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen i ystyried lleoliad os na ddarperir gwybodaeth am alluedd meddyliol person ifanc.

Llunio adroddiad asesu

38. Dan rai amgylchiadau, gall anghenion addysg a hyfforddiant person ifanc gael eu hasesu o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae asesiad adran 140 yn arwain at adroddiad ysgrifenedig (a elwir yn Gynllun Dysgu a Sgiliau) o anghenion addysg a hyfforddiant ôl-16 dynodedig person ifanc, a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu.

Pryd mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru drefnu asesiad?

39. O dan adran 140(2) o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau, mae'n **rhaid** i Lywodraeth Cymru drefnu i asesu person ifanc yn ystod ei flwyddyn olaf mewn addysg orfodol cyn belled â bod y ddau amod canlynol wedi'u bodloni:

- mae ALI yng Nghymru yn cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer y person; **a**
- bydd y person ifanc yn gadael yr ysgol ar ddiwedd ei flwyddyn olaf mewn addysg orfodol i dderbyn addysg neu hyfforddiant neu addysg uwch ôl-16.

O dan ba amgylchiadau y gall Llywodraeth Cymru drefnu asesiad?

40. Dan rai amgylchiadau, mae gan Lywodraeth Cymru'r disgresiwn i baratoi asesiad.

41. O dan adran 140(3), **gall** Llywodraeth Cymru drefnu asesiad ar gyfer person ifanc:

- sydd yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol neu sydd dros yr oedran ar gyfer addysg orfodol ond sydd o dan 25 oed; **ac**
- y mae'n ymddangos bod ganddo anhawster dysgu; **ac**
- sy'n cael, neu'n debygol o gael, addysg neu hyfforddiant neu addysg uwch ôl-16.

42. O dan yr amgylchiadau canlynol, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymlaen llaw ei bod yn briodol cynnal asesiad o dan adran 140(3) ar gyfer person ifanc:

- sydd dros yr oedran ar gyfer addysg orfodol ond sydd o dan 25 oed; **ac**
- sydd â datganiad o AAA a gynhelir gan ALI yng Nghymru (felly ei fod ym Mlwyddyn 12, 13 neu 14); **ac**
- y bydd yn gadael yr ysgol ar ddiwedd ei flwyddyn academiaidd bresennol i gael addysg neu hyfforddiant neu addysg uwch ôl-16.

43. O dan rai amgylchiadau, gall Llywodraeth Cymru benderfynu ei bod yn briodol i berson ifanc gael ei asesu o dan adran 140(3). Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys y canlynol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- person ifanc:
 - sydd ag anhawster dysgu ond nad oes ganddo ddatganiad o AAA (er enghraifft, pobl ifanc sy'n cael cymorth Gweithredu Gan yr Ysgol / Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy); **ac**
 - sydd yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol; **ac**
 - y credir y bydd angen cymorth ychwanegol arno fel rhan o'i addysg neu ei hyfforddiant yn y dyfodol; **ac**
 - a fyddai'n elwa ar asesiad i nodi ei anghenion dysgu a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu ei anghenion.
- neu berson ifanc:

- sydd ag anhawster dysgu ond nad oes ganddo ddatganiad o AAA (er enghraifft, pobl ifanc sy'n cael cymorth Gweithredu Gan yr Ysgol / Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy); **ac**
- sydd dros yr oedran ar gyfer addysg orfodol ond sydd o dan 25 oed ac sy'n cael, neu'n debygol o gael, addysg neu hyfforddiant neu addysg uwch ôl-16; **ac**
- sy'n mynychu, neu sydd ar fin cychwyn, addysg neu hyfforddiant ôl-16, ond nad yw wedi cael asesiad eto, a'i bod yn briodol asesu ei anghenion dysgu a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu oherwydd ei amgylchiadau (e.e. person ifanc sydd wedi datblygu anhawster dysgu, efallai oherwydd damwain); **neu**
- sydd wedi cael asesiad o'r blaen ond bod ei amgylchiadau wedi newid (e.e. person ifanc â chyflwr sy'n gwaethygu) i'r fath raddau nes bod angen cynnal asesiad arall i sicrhau bod ei anghenion dysgu yn cael eu diwallu; **neu**
- a oedd yn destun datganiad o AAA, ond na chafodd asesiad gan na symudodd o'r ysgol i addysg neu hyfforddiant arall. Gall hyn fod yn berthnasol os yw person ifanc yn cael swydd am flwyddyn cyn penderfynu ei fod eisieu dychwelyd i addysg neu hyfforddiant.

Pwy fydd yn cael ei asesu a phryd y bydd angen cynnal yr asesiad?

44. Mae'n rhaid i'r cynghorydd gyrfaoedd gwblhau asesiad o unrhyw berson ifanc sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mharagraff 39 a 42. Hefyd, bydd cynghorwyr gyrfaoedd yn darparu asesiad yn ddiofyn os yw'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni:
45. Mae'r person ifanc –
- a. yn derbyn cymorth Gweithredu Gan yr Ysgol neu Weithredu Gan yr Ysgol a Mwy; **a**
 - b. bu'n destun prosesau adolygu blynyddol a/neu bontio sy'n berthnasol⁷ i berson ifanc â datganiad o AAA.
46. Gall cynghorwyr gyrfaoedd, neu rywun arall sy'n gallu eirioli ar ran y person ifanc, gysylltu â Llywodraeth Cymru ar ran yr unigolyn neu ei riant/gofalwr yn gofyn am asesiad os yw'r meini prawf a amlinellir ym mharagraff 41, 42 neu 43 yn berthnasol. O dan yr amgylchiadau hyn, Llywodraeth Cymru a fydd yn penderfynu a oes angen asesiad. Os oes angen asesiad, ni fydd y cynghorydd gyrfaoedd yn ei gynnal heb gydsyniad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r cynghorydd gyrfaoedd, neu bwy bynnag arall sy'n eirioli ar ran y person ifanc, gysylltu â Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio blwch negeseuon e-bost: post16aln@llyw.cymru.
47. Pan fo trefniadau ar gyfer asesiad wedi'u gwneud, dylid cwblhau'r asesiad hwnnw mor gyflym ag sy'n rhesymol bosibl er mwyn helpu person ifanc i ystyried ei opsiynau ar gyfer addysg bellach ac i sicrhau y gellir trefnu cymorth priodol. Disgwylir i asesiadau adran 140 gael eu cwblhau erbyn diwedd tymor academaidd y gwanwyn ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n disgwyl cychwyn addysg a hyfforddiant ôl-16 ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, h.y. y mis Medi canlynol.

⁷ Ystyr 'perthnasol' yw y rhagwelir y bydd yr adolygiad blynyddol a/neu'r adolygiad pontio ar gyfer person ifanc sy'n cael cymorth 'gweithredu gan yr ysgol' neu 'weithredu gan yr ysgol a mwy' yn cynnwys mewnbwn aml-ddisgyblaethol, yn yr un modd ag y mae adolygiad o ddatganiad o AAA yn cynnwys mewnbwn amlbroffesiynol.

48. Fel y nodwyd o dan baragraffau 39 a 42, mae'n rhaid cynnal asesiad ar gyfer person ifanc sydd am adael yr ysgol a mynd i'r sector addysg uwch (AU). Mae hyn yn berthnasol i bobl ifanc sydd yn eu blwyddyn olaf o addysg orfodol neu sydd wedi cyrraedd eu blwyddyn academiaidd olaf mewn chweched dosbarth ysgol ac sydd am fynd yn syth i AU.
49. Os yw person ifanc sydd â Chynllun Dysgu a Sgiliau ar hyn o bryd eisiau symud o addysg bellach i addysg uwch, nid oes angen diweddarau/diwygio'r Cynllun presennol. Dylid rhannu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau presennol â'r Sefydliad Addysg Uwch (SAU), cyn belled â bod y person ifanc yn cytuno i hynny. Bydd hyn yn helpu'r SAU i ddeall anghenion cymorth blaenorol y person ifanc yn well.

Gofynion yr Asesiad

50. Mae adran 140 yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad arwain at Gynllun Dysgu a Sgiliau sy'n nodi'r canlynol:
- anghenion addysgol a hyfforddiant y person ifanc; **a'r**
 - ddarpariaeth a'r cyfnod rhesymol ac ymarferol sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion, ynghyd ag unrhyw cymorth holistaidd ychwanegol gofynnol, lle bo hynny'n berthnasol;
51. Yn ogystal, dylai'r Cynllun Dysgu a Sgiliau gynnwys y canlynol yn benodol:
- gwybodaeth gryno sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y broses bontio ac sy'n nodi ac yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc; **ac**
 - y darparwr sefydliad AB neu ddysgu seiliedig ar waith penodol a fydd yn gyfrifol am y ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol, gan gynnwys cadarnhad bod y ddarpariaeth ofynnol ar gael ac wedi'i sicrhau dros dro; **ac**
 - ystyriaeth o gyflawniadau blaenorol o ran addysg a hyfforddiant; **a**
 - rhesymau pam y mae sefydliad AB penodol wedi'i ddewis fel sefydliad sy'n gallu diwallu anghenion y person ifanc; **a**
 - rhesymau pam mae gallu person ifanc yn golygu bod angen rhaglen o hyd⁸ penodol er mwyn darparu'r ddarpariaeth a ystyrir yn angenrheidiol; **ac**
 - y deilliannau a ddymunir gan y person ifanc sy'n gysylltiedig â'i ddyheadau yn y dyfodol, fel cyflogaeth neu fyw'n rhannol-annibynnol/annibynnol a sut bydd y ddarpariaeth a nodwyd yn paratoi'r person ifanc i sicrhau'r deilliannau hyn; **a**
 - lle bo angen, safbwyntiau'r person ifanc a/neu ei riant/gofalwr os yw'n anghytuno â'r ddarpariaeth a ystyrir yn angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig.
52. Dylai'r Cynllun Dysgu a Sgiliau nodi'r hyn y gellir ei ddarparu'n realistig mewn gwirionedd, nid yr hyn sy'n ddelfrydol neu'r hyn fyddai'n dda mewn egwyddor. Mae angen i'r cynghorydd gyrfaedd fod wedi'i fodloni bod y ddarpariaeth a bennir yn rhesymol, yn realistig, ac yn seiliedig ar allu'r unigolyn, a bod modd i'r person ifanc ei gyflawni mewn gwirionedd. Dylai'r cynghorydd gyrfaedd ddod i'r penderfyniad hwn adeg cwblhau ei asesiad ac wrth ysgrifennu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau.
53. Mae angen i'r Cynllun Dysgu a Sgiliau wneud argymhelliad am y lleoliad, gan gynnwys y cwrs/rhaglen astudio angenrheidiol a'i hyd. Bydd cynnwys a manylder y Cynllun Dysgu a

⁸ Mae hyn yn cyfeirio at hyd yn ei gyfanrwydd, h.y. os oes disgwyl y bydd angen i'r person ifanc gyrchu mwy nag un cwrs dros fwy na blwyddyn.

Sgiliau yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos unigol, ond dylai'r Cynllun adlewyrchu'n rhesymol, ac yn ddigon clir a dealladwy, gasgliadau pennaf a phwysicaf yr asesiad yn seiliedig ar safbwynt proffesiynol y cynghorydd gyrfaoedd. Mae angen i hyn fod yn seiliedig ar yr ystod o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y person ifanc. Hefyd, dylai'r adroddiad gyfeirio at y dystiolaeth benodol sy'n sylfaen i farn y cynghorydd gyrfaoedd.

54. Mae ffurflen benodol ar gyfer Cynllun Dysgu a Sgiliau ar gael ar dudalen 32. Mae'r ffurflen hon wedi'i pharatoi gan Lywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau asesiadau'n cael eu cwblhau yn gyson. Mae'r ffurflen yn cynnwys rhagor o gyngor ym mhob adran berthnasol ar faint o wybodaeth sydd ei hangen, ac ansawdd y wybodaeth.
55. Er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn addas i'r diben ac yn bodloni gofynion adran 140 o Ddeddf 2000, dylai'r asesiad:
- fod yn seiliedig ar wybodaeth gywir a chyfoes (gan sicrhau bod gwybodaeth allweddol mor gyfoes â phosibl a heb fod yn hŷn na blwyddyn os oes modd) sydd wedi'i darparu gan y cynghorydd gyrfaoedd, ei bartneriaid a darparwyr perthnasol eraill;
 - nodi'n glir sut y gellir diwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant yn rhesymol, gan gynnwys yr amser sydd ei angen i wneud hynny.
56. Bydd angen i'r cynghorydd gyrfaoedd sicrhau cydsyniad y person ifanc neu ei riant/gofalwr (gweler adran 'cydsynio' ar dudalen 9) er mwyn rhannu unrhyw wybodaeth am yr asesiad â sefydliadau AB prif ffrwd / arbenigol yn gynnar yn y broses asesu er mwyn penderfynu'r ddarpariaeth a ystyrir yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc.
57. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd sefydliadau AB prif ffrwd yn mynd ati fel mater o drefn i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant y rhan fwyaf o bobl ifanc sydd ag anhawster dysgu. Felly, wrth sefydlu'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc, mae'n rhaid i gynghorwyr gyrfaoedd nodi yn y lle cyntaf a yw darpariaeth ar gael drwy'r sector AB prif ffrwd, cyn ystyried opsiynau eraill. Er mwyn nodi a yw sefydliad AB prif ffrwd yn gallu diwallu anghenion y person ifanc, mae angen rhannu gwybodaeth yn ymwneud â'r asesiad adran 140 â'r lleoliad. Wedyn, mae'n rhaid i sefydliadau AB prif ffrwd gwblhau ffurflen '*Darpariaeth Addysg Bellach Brif ffrwd*', sydd wedi'i chynnwys ar dudalen 36, sy'n nodi os a sut y gallai'r lleoliad ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc.
58. Dim ond sefydliadau arbenigol AB sydd wedi ymrwymo i gytundeb cyllido⁹ gyda Llywodraeth Cymru y dylid eu hystyried fel lleoliadau posibl ar gyfer person ifanc. Os yw mynediad i ddarpariaeth arbenigol yn cael ei ystyried, mae angen rhannu gwybodaeth yn ymwneud â'r asesiad 140 â'r sefydliad AB arbenigol. Bydd y sefydliad AB arbenigol yn ystyried y wybodaeth sydd wedi'i darparu ac yn cwblhau ei asesiad cychwynnol ei hun o'r person ifanc er mwyn nodi'r ddarpariaeth y mae'n gallu ei chynnig. Ni ddylai'r asesiad hwn ddigwydd wrth ei hun, dylid ei ystyried gyda thystiolaeth berthnasol arall, er enghraifft cynllun gofal a chymorth; ac unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd lleol. Wedyn, dylai'r sefydliad AB arbenigol roi copi o asesiad y lleoliad i'r

⁹ Mae Cytundeb Cyllido Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliad AB arbenigol mewn perthynas â'r bobl ifanc hynny y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w hariannu ac â thelerau'r cyllid hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw rhestr o sefydliadau AB arbenigol sydd wedi ymrwymo i'r trefniant cytundebol hwn. Petai'r cynghorydd gyrfaoedd yn dymuno ystyried sefydliad AB arbenigol nad yw ar y rhestr, dylai gysylltu â Llywodraeth Cymru ar unwaith.

cynghorydd gyrfaedd ynghyd â chopi wedi'i gwblhau o'r ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*', sydd wedi'i chynnwys ar dudalen 39, a fydd yn nodi sut mae'r lleoliad yn bwriadu diwallu anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc.

59. Er mwyn i'r sefydliad AB prif ffrwd neu arbenigol ystyried y ddarpariaeth holistaidd ehangach sydd ei hangen i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant person ifanc, dylai gael gwybod a yw person ifanc wedi derbyn cymorth gofal cymdeithasol neu ofal iechyd yn y gorffennol. Os yw person ifanc wedi derbyn cymorth gofal cymdeithasol neu ofal iechyd, dylai'r cynghorydd gyrfaedd rannu'r asesiad perthnasol (neu o leiaf ddisgrifiad cyffredinol o'r anghenion presennol sy'n cael eu diwallu gan yr asiantaethau perthnasol) â'r sefydliad AB.
60. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylid rhoi blaenoriaeth i sefydlu darpariaeth yn lleol (prif ffrwd neu arbenigol) er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u cymunedau. Os nad oes darpariaeth leol ar gael i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc, disgwylir i gynghorwyr gyrfaedd ystyried darpariaeth arall yng Nghymru, os yw'n rhesymol gwneud hynny, cyn darpariaeth yn rhywle arall.
61. Wrth nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen a'r sefydliad priodol a ddylai fod yn gyfrifol amdani, bydd y cynghorydd gyrfaedd yn trafod â'r sefydliad AB prif ffrwd/arbenigol er mwyn ceisio cadw'r lleoliad dros dro. Mae hyn yn bwysig iawn os yw cais am gyllid yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer person ifanc y gallai sefydliad AB prif ffrwd ddiwallu ei anghenion hefyd. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gael sicrwydd bod lle mewn lleoliad penodol ar gael i'r person ifanc wrth wneud penderfyniad. Dan amgylchiadau eithriadol, os yw'n dod i'r amlwg yn annisgwyl nad oes lle ar gael bellach ar ôl cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru, bydd angen i'r cynghorydd gyrfaedd chwilio am opsiynau gwahanol a fydd yn diwallu anghenion y person ifanc.
62. Unwaith y sefydlir y gellid diwallu anghenion person ifanc drwy ddarpariaeth AB brif ffrwd, dylai'r cynghorydd gyrfaedd wneud pob ymdrech i nodi dewis amgen addas yn rhywle arall yn y sector AB brif ffrwd os bydd y lleoliad gwreiddiol yn peidio â bod ar gael cyn penderfynu ar y cais am gyllid. Mae Llywodraeth Cymru yn annhebygol o ariannu lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol am y rheswm nad yw'r lleoliad gwreiddiol arfaethedig mewn sefydliad AB prif ffrwd penodol ar gael bellach.

Sut y dylid cynnal yr asesiad?

63. Dylid sicrhau bod y person ifanc yn cael ei gynnwys gydol y broses o baratoi'r asesiad, a gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y person ifanc a'i riant/gofalwr yn cael eu cynnwys yn y broses bontio.
64. Dylai'r cynghorydd gyrfaedd gynorthwyo'r person ifanc i ddeall mai diben yr asesiad yw sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn ymwneud â'r person ifanc fel bod modd iddo lwyddo yn yr yrfa o'i ddewis.
65. Os oes gan y person ifanc anawsterau cyfathrebu sylweddol, dylai'r cynghorydd gyrfaedd gymryd pob cam ymarferol a phriodol i nodi safbwyntiau a dymuniadau'r person ifanc drwy, er enghraifft, rhiant/gofalwr, ei athrawon, cynrychiolwyr eraill, dehonglwr neu eiriolwr a thrwy gyfathrebu mewn ffordd briodol (er enghraifft, drwy gymorth gweledol).

66. Dylid cynnal yr asesiad gyda'r person ifanc a'i riant/gofalwr gan sicrhau mewnbwn cynnar priodol gan asiantaethau eraill gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr ysgol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, sefydliadau AB prif ffrwd ac ati. Er mwyn cwblhau'r asesiad adran 140, dylai'r cynghorydd gyrfaoedd wneud pob ymdrech resymol i gael gafael ar gopïau o wybodaeth/tystiolaeth berthnasol gyfoes yn ymwneud ag anghenion holistaidd yr unigolyn, gan gynnwys datganiad diweddaraf o AAA y person ifanc, lle bo hynny'n briodol. Dylai'r wybodaeth fod yn gyfoes, ac os oes modd, ni ddylai fod yn hŷn na blwyddyn.
67. Er bod modd derbyn gwybodaeth gan yr awdurdod lleol, yr ysgol neu asiantaethau perthnasol eraill, gall y person ifanc neu ei riant/gofalwr ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r asesiad yn eu barn nhw. Dylai'r cynghorydd gyrfaoedd ystyried hyn wrth wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag anghenion holistaidd y person ifanc a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu.
68. Dylai'r asesiad ddatblygu safbwyntiau ac arbenigedd pobl eraill sydd eisoes wedi cefnogi'r person ifanc. Gall y canlynol gyfrannu at y broses:
- a. riant/gofalwr;
 - b. Cydlynnydd AAA, neu'r athro sy'n arwain y gwaith cynllunio ar gyfer pontio os yw'n wahanol i'r Cydlynnydd AAA.
 - c. gweithwyr proffesiynol/arbenigwyr allweddol, fel seicolegwyr addysg, gweithwyr cymdeithasol a/neu weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol;
 - d. unrhyw unigolion perthnasol eraill, fel athrawon eraill, eiriolwr ac ati;
 - e. mae'n bosibl y bydd rhai o safbwyntiau a/neu farn arbenigol y rhai a enwir uchod eisoes wedi'u nodi yn y datganiad o AAA a'r adolygiad blynyddol diweddaraf, a thrwy brosesau asesu statudol/anstatudol eraill fel:
 - Cynllun Pontio
 - Cynllun Addysg Unigol / Adroddiad Ysgol
 - Cynllun Llwybr (os oes un ar gael)
 - Cynllun Gweithredu Gyrfa Cymru
 - Cynllun Gofal (os oes un ar gael)
- Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r mewnbynnau a fydd yn llywio'r asesiad nac yn rhestr orfodol o fewnbynnau y mae'n rhaid eu cynnwys. Dylid mynd ati ar sail achosion unigol i ystyried pa mor gymhleth yw anghenion y person ifanc a'r dystiolaeth sydd ei hangen i lywio'r asesiad.
69. Gall y Cydlynnydd AAA neu'r athro sy'n arwain y broses gynllunio ar gyfer pontio ddarparu gwybodaeth am y cymorth sy'n cael ei ddarparu yn yr ysgol ac am fynediad i'r Cynllun Addysg Unigol diweddaraf. Hefyd, gall y Cydlynnydd AAA neu athro priodol arall allu rhannu gwybodaeth am strategaethau sydd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol i helpu'r person ifanc i oresgyn rhwystrau yn yr ysgol. Fodd bynnag, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl fel arfer i Gydlynwyr AAA (neu athrawon/gweithwyr proffesiynol eraill) roi cyngor ar yr hyn y gall lleoliad addysg bellach ei ddarparu i'r person ifanc. Cyfrifoldeb y sefydliad AB prif ffrwd/arbenigol yw nodi unrhyw ddarpariaeth arfaethedig a ystyrir yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant ôl-16 dynodedig y person ifanc.
70. Dylai'r cynghorydd gyrfaoedd sicrhau bod y broses asesu yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod y person ifanc a'i riant/gofalwr yn gwbl ymwybodol o'r ffeithiau ac o fanteision/anfanteision unrhyw ddarpariaeth benodol.

71. Unwaith mae'r asesiad wedi'i gwblhau, bydd angen i'r cynghorydd gyrfaoedd ofyn am ganiatâd y person ifanc neu ei riant/gofalwr i rannu canlyniad terfynol yr asesiad (y Cynllun Dysgu a Sgiliau) â'r sefydliad AB prif ffrwd/arbenigol perthnasol (sydd wedi'i nodi ar gyfer y ddarpariaeth a sefydlwyd) ac adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol (BILI) a Llywodraeth Cymru (lle bo hynny'n berthnasol). Dylid sicrhau cytundeb drwy gadarnhad ysgrifenedig¹⁰ ar ffurf llofnod ar y Cynllun Dysgu a Sgiliau neu drwy e-bost/llythyr cadarnhau gan y person ifanc neu ei riant/gofalwr. Wrth sicrhau cadarnhad yn y modd hwn, mae'n hollbwysig bod pawb yn deall pa fersiwn o'r Cynllun Dysgu a Sgiliau y maent yn cytuno iddo.
72. Os yw person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr yn gwrthod rhannu unrhyw wybodaeth yn gynnar yn y broses, neu'n gwrthod rhannu canlyniad terfynol yr asesiad â rhanddeiliaid allweddol, dylai'r cynghorydd gyrfaoedd geisio deall eu safbwyntiau a mynd ati i drafod manteision ac anfanteision agwedd o'r fath, gan gynnwys y cyfyngiadau o ran nodi darpariaeth briodol. O dan GDPR, os nad yw'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr eisiau rhannu gwybodaeth bersonol, mae'n rhaid i'r cynghorydd gyrfaoedd barchu eu safbwyntiau.
73. Os yw person ifanc a/neu riant/gofalwr yn anghytuno ag agweddau ar gynnwys y Cynllun Dysgu a Sgiliau, er enghraifft eu bod eisiau gweld tystiolaeth benodol (fel tystiolaeth o adroddiad seicolegydd addysg) yn cael ei chynnwys yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau, dylai'r cynghorydd gyrfaoedd geisio deall eu safbwyntiau a thrafod manteision ac anfanteision agwedd o'r fath. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r cynghorydd gyrfaoedd ystyried cynnwys y wybodaeth hon, os yw'n angenrheidiol gwneud hynny, gan nodi yn yr adroddiad bod y wybodaeth yn cael ei chynnwys ar ran y person ifanc a/neu riant/gofalwr. Fodd bynnag, ni ddylai cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y modd hwn newid barn gyffredinol y cynghorydd gyrfaoedd wrth benderfynu anghenion addysgol a hyfforddiant y person ifanc a'r ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hyn; dylai'r wybodaeth ychwanegol hon eisoes fod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ehangach sydd ar gael.
74. Os yw person ifanc a/neu riant/gofalwr yn anghytuno â chanlyniad yr asesiad adran 140 ac nad yw'r Cynllun Dysgu a Sgiliau yn nodi'r ddarpariaeth o'u dewis, h.y. lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol, dylai'r cynghorydd gyrfaoedd geisio deall eu safbwyntiau a thrafod manteision ac anfanteision agwedd o'r fath. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddylai cynghorwyr gyrfaoedd newid eu barn ar sail canlyniad yr asesiad; dylai hyn aros yn ddigyfnewid yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau. Fodd bynnag, dylid ychwanegu datganiad at y Cynllun Dysgu a Sgiliau sy'n nodi safbwynt y person ifanc neu'r rhiant/gofalwr ar y ddarpariaeth o'u dewis. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddylai'r cynghorydd gyrfaoedd newid y sylfaen dystiolaeth er mwyn cyd-fynd yn fwy â safbwynt y person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr. Mae angen i'r cynghorydd gyrfaoedd gyflwyno safbwynt annibynnol a diduedd sy'n ystyried y sylfaen dystiolaeth ategol sydd ar gael. Os yw'r person ifanc neu'r rhiant/gofalwr yn parhau i gredu bod angen darpariaeth arbenigol ar ôl trafod y mater â'r cynghorydd gyrfaoedd a'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr, bydd angen cyflwyno cais am gyllid (gweler yr adran ar 'Y Ffurflen Gais' ar dudalen 21). Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad wedyn ar ôl ystyried dymuniadau'r person ifanc neu ei riant/gofalwr, barn broffesiynol y cynghorydd gyrfaoedd, a'r sylfaen dystiolaeth ategol.

¹⁰ Dylai cynghorwyr gyrfaoedd ddilyn gweithdrefnau mewnol a bennwyd gan Gyrfa Cymru ar gyfer sicrhau cydsyniad gan gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

75. Os yw asesiad yn nodi bod angen darpariaeth AB brif ffrwd, bydd angen cyflwyno'r Cynllun Dysgu a Sgiliau terfynol i'r sefydliad AB prif ffrwd fel bod modd iddo wneud trefniadau i ddarparu cymorth addas.

Asesiad a drefnir gan Lywodraeth Cymru

76. O dan amgylchiadau eithriadol, gall Llywodraeth Cymru drefnu'n briodol i seicolegydd addysg gwblhau asesiad adran 140 ar gyfer person ifanc. Bydd hyn yn digwydd o dan yr amgylchiadau canlynol **yn unig**:

- mae tystiolaeth arwyddocaol ar gael sy'n anghyson / yn wrthgyferbyniol **neu**
- credir bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ar gael yn hen (er enghraifft, yn hŷn na 3-5 mlynedd) ac mae'n hysbys bod anghenion y person ifanc wedi newid **neu**
- nid oes gwybodaeth neu fewnbwn arbenigol digonol, os o gwbl, ar gael ar gyfer y person ifanc.

Bydd unrhyw un o'r amgylchiadau hyn yn atal y cynghorydd gyrfaedd rhag llunio barn broffesiynol a/neu ddod i gasgliad ar ôl cwblhau ei asesiad.

77. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu seicolegydd addysg i ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i'r cynghorydd gyrfaedd. Bydd y seicolegydd addysg hefyd yn cynnal yr holl ymchwiliadau gyda'r person ifanc a'r sefydliadau AB prif ffrwd/arbenigol i nodi anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc a sefydlu'r ddarpariaeth a ystyrir yn angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig.

78. Os yw Llywodraeth Cymru yn trefnu asesiad, bydd yn gweithredu ar sail canlyniad yr asesiad yn unig. Os yw'r asesiad yn nodi bod angen darpariaeth mewn sefydliad AB arbenigol, ni fydd disgwyl i'r cynghorydd gyrfaedd gyflwyno cais am gyllid. Yn hytrach, o dan yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ariannu ar gyfer y ddarpariaeth arbenigol ar sail cyngor yr asesiad.

Cais i gynnal neu ddiweddarau asesiad adran 140

79. O dan rai amgylchiadau, mae gan Lywodraeth Cymru'r disgresiwn i ystyried a oes angen asesiad adran 140. Mae paragraff 43 yn nodi'r amodau pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal neu ddiweddarau asesiad adran 140. Os yw'r cynghorydd gyrfaedd yn ymwybodol o berson ifanc y gall yr amodau hyn fod yn berthnasol iddo, dylai'r cynghorydd gyrfaedd gyflwyno cais gan ddefnyddio'r ffurflen '*Cais am Asesiad Adran 140*' ar dudalen 43. Mae'n **rhaid** cyflwyno'r cais ar ffurf electronig, **drwy Egress Switch**, i'r blwch negeseuon e-bost canlynol: Post16ALN@llyw.cymru.

80. Wrth gyflwyno cais am asesiad adran 140, dylai'r cynghorydd gyrfaedd ddarparu gwybodaeth gryno yn ymwneud â'r canlynol:

- y person ifanc, gan gynnwys unrhyw anhawster dysgu a/neu anabledd dynodedig **ac**
- amod(au) penodol a nodir mewn deddfwriaeth y mae'r cais yn berthnasol iddo/iddynt (fel y nodir ym mharagraff 43) **a**
- gwybodaeth gefndir berthnasol, gan gynnwys hanes a chyflawniadau addysgol, rhesymau am gefnogi'r cais ac ati (mewn trefn gronolegol) **ac**
- unrhyw asiantaethau sy'n darparu cymorth ar hyn o bryd.

Dylai'r cais a gyflwynir fod yn gryno a dylai ganolbwyntio'n benodol ar anghenion y person ifanc; ni ddylid ei ysgrifennu â'r sefydliad AB arbenigol mewn golwg fel y canlyniad a ddymunir. Dylid nodi unrhyw ddarpariaeth a gynigir i'w ystyried fel rhan o'r broses asesu'n unig.

81. Os yw'r cais yn ymwneud â pherson ifanc sydd am gael lle ar raglen astudio sy'n destun cymorth ariannol ychwanegol, dylid cynnwys gwybodaeth gryno am y rhaglen astudio wreiddiol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a'r canlyniadau dymunol gwreiddiol (fel y'u nodir yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau) (gweler yr adran 'Cais i ariannu rhaglenni astudio ychwanegol' ar dudalen 28). Dylid nodi bod rhaid i'r rhesymau dros ddiweddaru Cynllun Dysgu a Sgiliau (i berson ifanc sy'n ceisio cael arian ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol) ymwneud â'r amodau penodol a nodir ym mharagraff 43; nid yw'r rhesymau dros gefnogi rhaglen astudio ychwanegol (fel y'u hamlinellir ym mharagraff 137) yn cael eu hystyried ar y cam hwn ac ni ddylid eu cynnwys yn y cais.
82. Boed cais am asesiad adran 140 yn darparu tystiolaeth i gefnogi cais o'r fath neu beidio, nid oes modd i gynghorwyr gyrfaedd wrthod cyflwyno cais i gynnal neu ddiweddaru asesiad adran 140 os yw'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr yn dymuno hynny. Dylai cynghorwyr gyrfaedd sicrhau dan amgylchiadau o'r fath bod y person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr yn ymwybodol o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ystyried wrth wneud penderfyniad am y cais, fel amlinellir ym mharagraff 43.
83. Mewn enghreifftiau o'r fath, ni ddylai cynghorwyr gyrfaedd ddiwygio'r dystiolaeth i gydfynd â dymuniad y person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr. Dylai cynghorwyr gyrfaedd lenwi'r cais adran 140 gan nodi eu barn broffesiynol am sail y cais. Fodd bynnag, dylai cynghorwyr gyrfaedd ddweud yn glir mai barn y person ifanc neu'r rhiant/gofalwr yw y dylid cyflwyno cais adran 140, ynghyd ag unrhyw reswm y dylid ei ystyried, yn unol â pharagraff 43.
84. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i hysbysu'r cynghorydd gyrfaedd am ganlyniad y cais i gynnal neu ddiweddaru asesiad adran 140 ymhen 20 diwrnod gwaith, cyn belled â bod y cais yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.
85. Os yw lleoliad presennol person ifanc wedi methu ac mae'r asesiad adran 140 wrthi'n cael ei ddiweddaru, dylai'r cynghorydd gyrfaedd ailystyried anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc, fel y cawsant eu nodi yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau, cyn sefydlu'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion addysg a hyfforddiant sydd wedi'u diweddaru/diwygio. Bydd angen i'r cynghorydd gyrfaedd ailasesu'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn wrthrychol, gan gynnwys y rhesymau am fethiant y lleoliad ac unrhyw anghenion sy'n deillio o hynny, cyn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael, boed yn lleol neu fel arall, i sefydlu'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc.
86. Os yw cynghorwyr gyrfaedd yn ystyried cais am asesiad adran 140, neu gais i ddiweddaru asesiad adran 140, ar y sail y bydd angen gwneud cais posibl am gyllid ar gyfer darpariaeth mewn sefydliad AB, dylent fod yn ymwybodol o'r amserlen ar gyfer cyflwyno cais (gweler 'cyflwyno ceisiadau am gyllid' ar dudalen 22). Mae'n rhaid i'r dyddiad cychwyn ar gyfer unrhyw ddarpariaeth arfaethedig sicrhau bod digon o amser i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ac i drefniadau pontio addas gael eu rhoi ar waith ar gyfer y person ifanc. Nid yw'n arfer da cyflwyno darpariaeth arbenigol yn gynnwys dim ond er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn gallu manteisio ar ddarpariaeth yn gyflym; mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar y person ifanc a'i allu i ddysgu.

87. Os oes gan berson ifanc Cynllun Dysgu a Sgiliau eisoes, ond y credir bod angen ailystyried ei anghenion addysg a hyfforddiant, mae'n rhaid sicrhau cytundeb Llywodraeth Cymru cyn diweddaru'r asesiad adran 140.
88. Os nad yw anghenion addysg a hyfforddiant person ifanc wedi newid, ystyrir hi'n briodol i gynghorwyr gyrfaedd ddiwygio'r ddarpariaeth a nodir yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau os oes angen. Wrth wneud unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth, dylai'r cynghorydd gyrfaedd fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd unrhyw newidiadau i ddarpariaeth person ifanc yn parhau i gael eu rhoi ar waith yn y sector AB prif ffrwd yn dilyn penderfyniad bod modd diwallu anghenion person ifanc drwy ddarpariaeth AB brif ffrwd. Os yw newid mewn darpariaeth yn deillio o newid mewn anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc, dylid cyfeirio at baragraff 87. Fodd bynnag, wrth ddiwygio'r ddarpariaeth yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau, bydd angen i'r cynghorydd gyrfaedd sicrhau ei fod wedi cael caniatâd y person ifanc neu ei riant/gofalwr (lle bo hynny'n briodol) i wneud y newidiadau gofynnol. Dyma enghraifft o newid priodol i ddarpariaeth: Os yw person ifanc yn gadael sefydliad AB prif ffrwd ac yn symud i ddysgu seiliedig ar waith, neu fel arall. Fe'i hystyrir yn arfer da rhannu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau â darparwr dysgu seiliedig ar waith, neu â darparwyr eraill, er mwyn cynorthwyo'r person ifanc i dderbyn y cymorth sydd ei angen arno. Bydd diwygio'r ddarpariaeth benodedig yn y cyswllt hwn yn golygu bod y Cynllun Dysgu a Sgiliau yn fwy ystyrlon i'r darparwr dysgu seiliedig ar waith.
89. Os yw person ifanc yn ceisio dychwelyd i ddarpariaeth ôl-16, er enghraifft, yn dilyn cyfnod o ddysgu seiliedig ar waith, ac mae'r cynghorydd gyrfaedd yn credu bod y person ifanc yn debygol o fod angen lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol, mae modd gwneud cais am gyllid heb ofyn am ddiweddariad o'r Cynllun Dysgu a Sgiliau. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar y canlynol:
- a) mae'r person ifanc eisoes wedi cael asesiad adran 140 **ac**
 - b) fe gafodd y Cynllun Dysgu a Sgiliau presennol ei greu yn ystod y 12 mis diwethaf **ac**
 - c) nad yw anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc wedi newid yn ystod y cyfnod hwn **ac**
 - d) mae'r sefydliad AB prif ffrwd lleol wedi cadarnhau nad yw'n gallu diwallu anghenion holistaidd y person ifanc **ac**
 - e) nad yw'r person ifanc wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru o'r blaen i gyrchu darpariaeth arbenigol (gweler adran 'Ceisiadau i ariannu rhaglenni astudio ychwanegol' ar dudalen 30)
- Os na ellir bodloni unrhyw un o'r amodau uchod, mae'n **rhaid** gwneud cais i ddiweddaru asesiad adran 140 i Lywodraeth Cymru.

Llunio cais am gyllid

90. Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y bobl ifanc hynny sydd ag anawsterau dysgu, rhwng 16 a 25 oed, ac sydd am ddilyn rhaglen addysg ôl-16 ond sy'n methu â chael mynediad at y ddarpariaeth y pennwyd ei bod yn angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion o ran addysg a hyfforddiant drwy ddarpariaeth AB brif ffrwd, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth arbenigol ofynnol at y diben hwnnw. Gallai hyn gynnwys llety preswyl hefyd.
91. Os yw'r asesiad adran 140 yn nodi bod angen darpariaeth arbenigol gan sefydliad AB arbenigol penodol, mae'n rhaid i'r cynghorydd gyrfaoedd gyflwyno cais am gyllid, copi o'r Cynllun Dysgu a Sgiliau a'r dystiolaeth ategol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni ellir cyflwyno cais am gyllid os nad oes lle ar gael yn y sefydliad AB arbenigol. Nid yw'r ffaith fod y person ifanc ar restr aros yn golygu bod lle ar gael. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus bod lle hygyrch ar gael (ar y dyddiad cychwyn arfaethedig) cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â chais am gyllid.

Y Ffurflen Gais

92. Mae templed *Cais am Gyllid* penodol ar gael ar dudalen 44, sydd wedi'i baratoi yn dilyn ymgynghoriad rhwng Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru. Mae'r templed yn cynnwys rhagor o gyngor ym mhob adran berthnasol ar faint o wybodaeth sydd ei hangen ac ansawdd y wybodaeth.
93. Dylai'r cais gynnwys gwybodaeth gryno am:
- a) y person ifanc
 - b) addysg flaenorol, gan gynnwys unrhyw lwyddiannau blaenorol
 - c) deilliannau dymunol y person ifanc sy'n gysylltiedig â'i ddyheadau yn y dyfodol
 - d) unrhyw gyfraniad gan y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r sector gofal iechyd
 - e) sefydliadau AB prif ffrwd y cysylltwyd â nhw a deilliannau'r asesiadau cysylltiedig
 - f) sefydliadau AB arbenigol y cysylltwyd â nhw, y darparwr o ddewis, y rhaglen arfaethedig, hyd y rhaglen (h.y. dyddiad cychwyn a gorffen), natur y ddarpariaeth (dydd / lletya) a sut y bydd y rhaglen arfaethedig yn paratoi'r person ifanc i wireddu ei ddeilliannau dymunol
 - g) galluedd meddyliol y person ifanc ac unrhyw drefniadau cludo a phontio arfaethedig
 - h) argymhelliad sy'n egluro mewn ffordd ddigon eglur a dealladwy prif gasgliadau pwysig yr asesiad ar sail barn broffesiynol y cynghorydd gyrfaoedd. Dylai hyn gynnwys unrhyw dystiolaeth berthnasol sydd wedi'i hystyried wrth ddod i benderfyniad, fel y cynllun pontio neu nodiadau'r adolygiad blynyddol (os yw hynny'n berthnasol).
- Bydd cynnwys a lefel manylder y cais yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos unigol. Hefyd, dylai'r cais gyfeirio at y dystiolaeth benodol y mae'r cynghorydd gyrfaoedd wedi'i defnyddio i wneud penderfyniad.

94. Wrth gwblhau'r cais am gyllid, mae'n **rhaid** i'r cynghorydd gyrfaoedd sicrhau bod y rhaglen astudio a hyd y rhaglen yn cyfateb i'r hyn a nodir yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau a'r ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach*'. Os oes unrhyw wahaniaeth rhwng y ddarpariaeth a'r hyd a nodir yn y tair dogfen allweddol hyn, bydd angen gwneud rhagor o ymholiadau, a bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd mwy o amser i wneud penderfyniad. Gallai hefyd arwain at ddychwelyd y cais i'r cynghorydd gyrfaoedd.

95. Os yw'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r bwrdd iechyd wedi ymwneud â'r person ifanc, mae angen i'r cynghorydd gyrfaoedd sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol perthnasol o'r sefydliadau hyn yn cyfrannu at yr asesiad adran 140 a'r broses o wneud cais am gyllid. Bydd hyn yn golygu bod modd i'r asiantaethau perthnasol asesu pa mor briodol yw'r lefel o gymorth a'r costau cysylltiedig sydd wedi'u nodi.
96. Mae'n bwysig iawn bod sefydliadau AB yn rhannu copïau o asesiad y sefydliad AB arbenigol o'r person ifanc â'r asiantaethau perthnasol, ynghyd â'r ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'. Dylai'r cynghorydd gyrfaoedd sicrhau bod yr asiantaethau perthnasol wedi derbyn y wybodaeth hon, ac os nad ydynt wedi'i derbyn, bydd angen ei rhannu â nhw er mwyn sicrhau bod yr asiantaethau hyn yn gallu nodi a oes ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â'r cymorth dynodedig neu'r costau cysylltiedig. Mae asiantaethau perthnasol yn gyfrifol am hysbysu'r cynghorydd am unrhyw bryderon ac unrhyw gynnydd tuag at eu datrys.

Cyflwyno ceisiadau am gyllid

97. Mae'n rhaid i bob cais gynnwys unrhyw dystiolaeth berthnasol yn ymwneud â barn broffesiynol y cynghorydd gyrfaoedd. Mae'n **hanfodol** bod y cais a'r dystiolaeth ategol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:
- Cais am Gyllid
 - Cynllun Dysgu a Sgiliau
 - Ffurflen Darpariaeth Addysg Bellach Brif ffrwd
 - Ffurflen Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol
 - Asesiad Sefydliad Addysg Bellach Arbenigol.

Bydd y dystiolaeth ganlynol yn cael ei hystyried yn **hanfodol** hefyd, **lle y bo'n berthnasol** i'r person ifanc (**ac yn gyfoes**):

- Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig
- Cynllun Pontio / Adolygiad Blynyddol diweddaraf
- Cynllun Gofal
- Asesiad Unedig
- Asesiad o Alluedd Meddyliol ac, os oes angen, dogfen Penderfynu ar Fuddiannau Pennaf

Mae mathau o dystiolaeth ategol eraill sy'n cael eu hystyried yn **ddymunol**, ond nid yn hanfodol, os ydynt ar gael, yn cynnwys:

- Unrhyw adroddiadau gan weithwyr proffesiynol perthnasol, fel seicolegydd addysg, gweithiwr cymdeithasol, athro ysgol ac ati
- Unrhyw lythyrau o gefnogaeth.

98. Mae'n **rhaid** cyflwyno pob cais a'r holl dystiolaeth ategol ar ffurf electronig, **drwy Egress Switch**, i'r blwch negeseuon e-bost canlynol: Post16ALN@llyw.cymru. Dylai'r cais nodi'r dystiolaeth ategol sydd ar gael yn glir, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ar ffurf copi caled a fydd yn dilyn yn y post (ar ôl cyflwyno'r cais). Mae'n **rhaid** cyflwyno'r dogfennau canlynol ar ffurf electronig:
- Cais am Gyllid
 - Cynllun Dysgu a Sgiliau
 - Ffurflen Darpariaeth Addysg Bellach Brif ffrwd
 - Ffurflen Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol
 - Asesiad Sefydliad Addysg Bellach Arbenigol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorwyr gyrfaeodd wneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl dystiolaeth ategol ar gael ar ffurf electronig hefyd, os yw'n rhesymol gwneud hynny. Dylai'r holl dystiolaeth '**hanfodol**' neu '**hanfodol, lle y bo'n berthnasol**' gael ei chyflwyno fel pecyn ar yr un pryd â'r cais am gyllid.

99. Wrth gyflwyno gwybodaeth drwy Egress Switch, dylai cynghorwyr gyrfaeodd sicrhau nad yw'r cyfleuster 'diogelu cyfrinair' wedi'i alluogi. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu agor/cyrchu'r dogfennau hyn hyd yn oed os yw'r cyfrinair wedi'i ddarparu. Mae Egress Switch yn gyfleuster diogel ar gyfer y we, felly nid oes angen cyfleuster 'diogelu cyfrinair'. Bydd modd osgoi unrhyw oedi diangen yn y broses drwy gyflwyno dogfennau lle nad yw'r cyfleuster 'diogelu cyfrinair' wedi'i alluogi.
100. Hefyd, dylai'r cynghorydd gyrfaeodd sicrhau nad yw'r dogfennau '**hanfodol**' a nodwyd yn a) i e) yn cynnwys unrhyw newidiadau. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gael sicrwydd mai'r dogfennau hyn yw'r fersiynau terfynol. Gall unrhyw newidiadau yn y ddogfen arwain at ansicrwydd, ac mewn sefyllfa o'r fath mae'n bosibl y bydd y cais yn cael ei ddychwelyd i'r cynghorydd gyrfaeodd.
101. Pan fo'r cynghorydd gyrfaeodd yn cyflwyno Cynllun Dysgu a Sgiliau, fel un o'r dogfennau 'hanfodol', nad yw wedi'i lofnodi gan y person ifanc yn benodol, hynny yw, mae'r rhiant wedi'i lofnodi, rhaid darparu'r rhesymau pam y mae rhywun heblaw'r person ifanc wedi'i lofnodi i Lywodraeth Cymru.
102. Os oes gan y cynghorydd gyrfaeodd fynediad i wybodaeth a nodir yn f) i l) uchod, ond bod y wybodaeth yn cael ei hystyried yn hen iawn, h.y. dros 5 mlynedd, dylai'r cynghorydd gyrfaeodd barhau i ystyried y wybodaeth fel rhan o'r broses asesu. Fodd bynnag, at ddibenion y ffurflen gais, mae'n briodol nodi bod y dogfennau hyn ar gael ar gais yn unig.
103. Waeth a yw'r Cynllun Dysgu a Sgiliau yn sefydlu bod darpariaeth prif ffrwd yn ofynnol ai peidio, ni all cynghorwyr gyrfaeodd wrthod cyflwyno cais am gyllid i Lywodraeth Cymru os yw'r person ifanc a/neu ei riant/gofalwr yn dymuno hynny. Dylai'r cynghorydd gyrfaeodd sicrhau yn yr achosion hyn bod y person ifanc a'i riant/gofalwr yn ymwybodol o'r ffactorau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried wrth benderfynu ar gais, fel yr amlinellir yn nogfen canllawiau polisi Llywodraeth Cymru¹¹.
104. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddylai cynghorwyr gyrfaeodd newid y sylfaen dystiolaeth a nodwyd yn y Cynllun Dysgu a Sgiliau neu'r cais er mwyn cyd-fynd â'r lleoliad arfaethedig y mae'r person ifanc neu ei riant/gofalwr yn ei ddymuno. Dylai cynghorwyr gyrfaeodd ddilyn y gweithdrefnau arferol wrth gwblhau'r Cynllun Dysgu a Sgiliau a'r cais, gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael a nodi eu barn broffesiynol ar y ddarpariaeth sy'n cael ei hystyried yn angenrheidiol. Fodd bynnag, dylai cynghorwyr gyrfaeodd ei gwneud yn glir (o dan gwestiwn 38 o'r ffurflen gais, 'Argymhelliad') mai barn y person ifanc neu ei riant/gofalwr yw y dylid cyflwyno cais am y ddarpariaeth o'i ddewis, ynghyd ag unrhyw resymau sydd angen eu hystyried yn ôl y person ifanc neu ei riant/gofalwr. O dan amgylchiadau o'r fath, disgwylir i 'holl destun' rhesymau'r rhieni pam y dylid ystyried cais gan Lywodraeth Cymru gael ei gynnwys yn y cais. Dylai cynghorwyr gyrfaeodd sicrhau bod rhieni hefyd yn fodlon ar y ffordd y mae eu rhesymau'n cael eu geirio cyn cyflwyno'r cais. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ar ôl

¹¹ <https://llyw.cymru/sicrhau-addysg-ol-16-i-bobl-ifanc-ag-anawsterau-dysgu-mewn-sefydliadau-addysg-bellach-arbenigol>

ystyried rhesymau'r person ifanc neu ei riant/gofalwr, a'r sylfaen dystiolaeth ategol sydd ar gael.

105. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i wneud penderfyniad ynglŷn â chais am gyllid o fewn cyfnod o chwe wythnos, os bydd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu amserlenni penodol ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllid.
- a) gellir cyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer lleoliad sy'n cychwyn ar ddechrau blwyddyn academiaidd newydd o'r mis Hydref blaenorol ymlaen. **Dylid cyflwyno ceisiadau rhwng 1 Hydref a 30 Ebrill ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Medi.**
 - b) pan gyflwynir ceisiadau am gyllid ar gyfer lleoliadau sy'n cychwyn ar ddyddiad amgen, (y tu allan i'r flwyddyn academiaidd newydd), dylid rhoi ystyriaeth i'r tymor academiaidd priodol y gall y lleoliad gychwyn ynddo. **Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 30 Medi ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Ionawr; neu erbyn 31 Ionawr ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Ebrill.**
106. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau a dderbynnir ar 1 Mai neu ar ôl hynny ar gyfer rhaglenni astudio y disgwylir iddynt gychwyn ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf h.y. mis Medi. Yn yr un modd, ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau a dderbynnir ar ôl 30 Medi ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Ionawr ac ar ôl 31 Ionawr ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Ebrill. Nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cynghorwyr gyrfaedd yn cyflwyno ceisiadau am gyllid, os nad yw'r dystiolaeth ofynnol ar gael, er mwyn cyrraedd dyddiad cau penodedig.
107. Gall cynghorwyr gyrfaedd barhau i gyflwyno ceisiadau ar neu ar ôl y dyddiadau hyn. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hyn, dylent gydweithio â'r person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr a'r sefydliad AB arbenigol i geisio sicrhau dyddiad cychwyn ar ddechrau'r tymor academiaidd nesaf, fel sy'n briodol, gan sicrhau bod y cais yn nodi hyn.
108. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am gyllid yn brydlon er mwyn hwyluso proses cynllunio ar gyfer pontio effeithiol i'r person ifanc. Dylai cynghorwyr gyrfaedd wneud pob ymdrech i gyflwyno cais mor gynnar â phosibl, ac yn unol â'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau a nodir uchod.
109. Os oes cais am gyllid wedi'i dderbyn ar gyfer lle mewn sefydliad AB arbenigol penodol, a bod pryder diogelu wedi'i nodi yn ei gylch, gall Llywodraeth Cymru fod angen sicrwydd ychwanegol bod safonau diogelu addas ar waith i amddiffyn pobl ifanc. Yn yr amgylchiadau hyn, ni ddylid cyflwyno cais nes ei bod yn hysbys bod unrhyw bryderon wedi'u datrys neu fod camau gweithredu clir yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon. Bydd angen cyflwyno'r wybodaeth hon gyda'r cais am gyllid. Mae'n bwysig iawn hysbysu'r person ifanc a/neu ei riant/gofalwr am y sefyllfa yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru wrth law i gynghori cynghorwyr gyrfaedd yn yr amgylchiadau hyn.

Hyd Astudio

110. Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau'r ddarpariaeth a ystyrir yn ofynnol i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc. Os oes cais am ddarpariaeth arbenigol yn cael ei wneud, mae'n rhaid ystyried yr hyd gofynnol ar sail gallu'r person

ifanc i ddatblygu a chyflawni yn erbyn rhaglen astudio arfaethedig¹². I'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol, bydd yr hyd yn gymharol â hyd y ddarpariaeth sydd ar gael mewn sefydliadau AB prif ffrwd. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau am raglenni astudio sy'n para mwy na dwy flynedd mewn amgylchiadau eithriadol.

111. Ni ddylai cynghorwyr gyrfaoedd gyflwyno cais am raglen astudio sy'n para mwy na dwy flynedd academiaidd oni bai bod rhesymau eithriadol yn ymwneud â gallu'r unigolyn i ddysgu wedi'u nodi. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, bydd angen i gynghorwyr gyrfaoedd ddarparu tystiolaeth wrthrychol sy'n dangos na ellir, mewn gwirionedd, darparu'r ddarpariaeth a nodwyd yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion y person ifanc gan raglen astudio dwy flynedd. Dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu gan y sefydliad AB arbenigol yn y ffurflen *Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*. Fodd bynnag, os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu ar gyfer rhaglen astudio sy'n para mwy na dwy flynedd academiaidd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cynghorwyr gyrfaoedd yn herio'r sefydliad AB arbenigol yn rhesymol er mwyn cael y wybodaeth.
112. Bydd angen i'r cynghorydd gyrfaoedd nodi'r rhaglen astudio arfaethedig a hyd y rhaglen astudio yn y cais.

Rhaglenni Astudio

113. Mae'n rhaid i sefydliadau AB arbenigol nodi rhaglen astudio glir a rhesymol sy'n diwallu anghenion addysg a hyfforddiant dynodedig y person ifanc fel rhan o'r broses asesiad adran 140, gan gynnwys manylion y ddarpariaeth ddisgwyliedig ym mhob un o'r blynyddoedd academiaidd gofynnol, a'r deilliannau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â dyheadau'r unigolyn yn y dyfodol. Dylai'r ffurflen *Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol* nodi hyn yn glir. Mae rhagor o wybodaeth am ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â rhaglenni astudio wedi'i chynnwys yn y canllawiau polisi.
114. O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd mwy nag un sefydliad AB arbenigol yn gallu cynnig rhaglen astudio a fydd yn diwallu anghenion addysg a hyfforddiant y person ifanc. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r cynghorydd gyrfaoedd nodi'r sefydliadau hyn yn y cais am gyllid a rhoi rhesymau am ddewis un sefydliad yn hytrach na sefydliad arall. Er na ddylai cost y lleoliad fod yn brif ffactor wrth benderfynu'r lleoliad, dylai'r cynghorydd gyrfaoedd roi sylw i ystyriaethau gwerth am arian wrth wneud penderfyniad.
115. Dylai sefydliadau AB arbenigol ystyried cyflawniadau addysgol blaenorol y person ifanc wrth nodi rhaglen astudio resymol ac ymarferol. Fodd bynnag, bydd angen i gynghorwyr gyrfaoedd fod yn sicr wrth ymgysylltu â'r sefydliad AB arbenigol fod y rhaglen astudio arfaethedig yn cychwyn ar lefel briodol i'r person ifanc, gan ystyried ei ddysgu blaenorol.

¹² Caiff sefydliadau AB arbenigol eu sefydlu yn benodol i ddiwallu anghenion cymhleth pobl ifanc a dargedir yn benodol gan y ddarpariaeth, h.y. pobl ifanc ag awtistiaeth ddifrifol neu bobl ifanc ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Felly, yn gyffredinol mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau AB arbenigol gynllunio rhaglenni astudio pwrpasol sy'n gymharol o ran hyd â rhaglenni astudio sefydliad AB prif ffrwd. Dylai'r rhaglenni hyn gael eu targedu'n benodol at y lefel ymarferol o addysg y mae modd ei chyflawni yn y cyfnod hwnnw ar gyfer y cohort cyffredinol o bobl ifanc sy'n mynychu'r sefydliadau hyn.

Darpariaeth Dydd / Preswyl

116. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu lleoliad dydd ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach arbenigol os yw'n ystyried bod darpariaeth o'r fath yn angenrheidiol er mwyn i'r unigolyn allu cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant. Dim ond pan nad oes unrhyw ffordd realistig arall o roi mynediad effeithiol i'r person ifanc i'r ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion yr unigolyn o ran addysg a hyfforddiant, y bydd darpariaeth arbenigol yn angenrheidiol ym marn Llywodraeth Cymru fel arfer.
117. Yr unig adeg y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu llety preswyl yw pe bai'r person ifanc yn methu cael mynediad at y ddarpariaeth arbenigol y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu ei anghenion o ran addysg a hyfforddiant, heb y llety preswyl hwnnw.

Cludiant o'r cartref i'r coleg

118. Mae'n bwysig bod y person ifanc a'i riant/gofalwr yn deall y trefniadau tebygol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r coleg yn enwedig lle gallai person ifanc gael mynediad at ddarpariaeth mewn sefydliad AB arbenigol. Felly, disgwylir y bydd cynghorwyr gyrfaeodd yn nodi trefniadau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y person ifanc fel rhan o'r Cynllun Dysgu a Sgiliau. Hefyd, disgwylir iddynt godi unrhyw ofynion cludiant posibl yn y dyfodol â'r awdurdod lleol yn gynnar yn y broses asesu. Dylai'r awdurdod lleol ystyried unrhyw ofynion cludiant sydd wedi'u nodi fel bod yn berthnasol i'w dyletswyddau statudol. Dylid nodi'r trefniadau hyn yn y cais am gyllid.

Cyllid / Ffioedd

119. Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar ei phen ei hun i gynorthwyo pobl ifanc ag anawsterau dysgu. Mewn amgylchiadau lle mae rhesymau meddygol, domestig neu ofal cymdeithasol dros argymell darpariaeth addysg bellach arbenigol, yn ogystal ag anghenion addysgol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r asiantaeth briodol ddod i drefniant ar gyfer cyllid ar y cyd.
120. Dylai sefydliadau AB arbenigol sicrhau eu bod wedi nodi'r costau sy'n gysylltiedig â'r lleoliad arfaethedig yn ystod y broses asesiad adran 140; mae hyn yn cynnwys manylion y costau penodol sy'n gysylltiedig ag addysg, iechyd a/neu ofal cymdeithasol. Mae angen dangos hyn yn glir yn y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'.
121. Bydd y cynghorydd gyrfaeodd yn gwneud cyfraniad pwysig at hwyluso'r broses o wneud penderfyniad ar gyllido ar y cyd drwy sicrhau bod yr asiantaethau perthnasol yn derbyn y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'. Dylai'r sefydliad AB arbenigol eisoes fod yn ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol, ond bydd y camau gweithredu dilynol yn lleihau'r posibilrwydd o oedi. Mae'r asiantaethau ariannu perthnasol yn gyfrifol am ystyried a chytuno ar y costau cysylltiedig a nodwyd mewn perthynas â'r sefydliad AB arbenigol. Os oes angen newid y costau, mae'r sefydliad AB arbenigol yn gyfrifol am gyflwyno ffurflen ddiwygiedig i'r cynghorydd gyrfaeodd.
122. Cymeradwyir cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail blwyddyn academiaidd (uchafswm o 38 wythnos/blwyddyn).

123. Mae canllawiau polisi Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o gyngor ar drefniadau ariannu.

Cynllunio ar gyfer Pontio

124. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd trefniadau pontio effeithiol yn rhan ganolog o raglen astudio'r person ifanc. Yn aml mae pobl ifanc ag anawsterau dysgu yn ei chael yn anodd addasu i leoliad neu amgylchedd newydd a fydd yn cynnig y ddarpariaeth iddynt. Mae'n bwysig bod trefniadau pontio ar waith er mwyn i'r broses o gychwyn y ddarpariaeth newydd fod yn un esmwyth i'r person ifanc er mwyn lleihau'r risg o straen a/neu bryder i'r unigolyn. Mae'r un mor bwysig bod y trefniadau ar gyfer pontio o sefydliad addysg bellach arbenigol wedi'u cynllunio a'u rhoi ar waith yn effeithiol hefyd, mewn cydweithrediad ag asiantaethau cymorth perthnasol, fel gwasanaethau cymdeithasol neu fyrdau iechyd lleol, ac y gwneir hynny'n brydlon a chyn i'r person ifanc gwblhau ei raglen.

125. Mae'n rhaid i sefydliadau AB arbenigol ddarparu gwybodaeth am y trefniadau cynllunio ar gyfer pontio yn ymwneud â'r person ifanc yn y ffurflen '*Manylion Darpariaeth Addysg Bellach Arbenigol*'. Bydd angen i'r cynghorydd gyrfaedd sicrhau bod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys gyda'r cais am gyllid.

Dychwelyd Ceisiadau

126. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen i ystyried cais am gyllid os ystyrir bod y cais neu'r Cynllun Dysgu a Sgiliau yn anghyflawn, er enghraifft, pan fo rhannau o'r cais wedi'u gadael yn wag neu nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth berthnasol; neu os na ddarparwyd y dystiolaeth ategol a ystyrir yn **hanfodol** (yn cynnwys **hanfodol lle bo'n berthnasol**) gyda'r cais. Pan fydd cais neu Gynllun Dysgu a Sgiliau'n cael ei ystyried yn anghyflawn bydd yn cael ei ddychwelyd i'r cynghorydd gyrfaedd. Felly, mae'n bwysig cyflwyno'r holl wybodaeth angenrheidiol i osgoi unrhyw oedi diangen ym mhroses benderfynu Llywodraeth Cymru.

127. Pan gyflwynir ceisiadau heb ystyried dyddiad dechrau priodol ar gyfer darpariaeth sefydledig mewn sefydliad AB arbenigol bydd y cais yn cael ei ddychwelyd i'r cynghorydd gyrfaedd er mwyn iddo ei ailystyried. Mae'n hanfodol rhoi digon o amser i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad ac i wneud trefniadau pontio cyn dechrau darpariaeth gyda'r sefydliad AB arbenigol.

128. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd y person ifanc, y rhiant/gofalwr neu bartneriaid darparu gwasanaeth, yn ailystyried opsiynau ar ôl cyflwyno cais. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried a yw hi'n briodol dychwelyd y cais i'r cynghorydd gyrfaedd nes bod unrhyw ailystyried wedi'i ddatrys. Os oes angen darpariaeth arbenigol o hyd ar ôl unrhyw ailystyried, yna bydd y cynghorydd gyrfaedd yn gyfrifol am ailgyflwyno'r cais, a'r holl dystiolaeth ategol angenrheidiol a chyfredol, yn cynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag ailystyried (gallai hyn fod yn nodyn o gyfarfod nifer o weithwyr proffesiynol lle daethpwyd i benderfyniad ar ôl ailystyried).

129. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd cais yn cael ei ailgyflwyno o fewn 20 diwrnod gwaith iddo gael ei ddychwelyd. Dylai cynghorwyr gyrfaedd roi gwybod i Lywodraeth Cymru os na fydd hynny am ddigwydd. Os bydd cais wedi'i gyflwyno yn agos i'r dyddiad cau a'i fod yn cael ei ddychwelyd ar ôl hynny, os na fydd y cais yn cael ei ailgyflwyno o fewn 20 diwrnod gwaith, efallai y bydd angen i'r cynghorydd gyrfaedd

addasu dyddiad cychwyn arfaethedig y lleoliad yn unol â'r amserlen ar gyfer cyflwyno cais, er enghraifft newid dyddiad cychwyn o fis Ebrill i fis Medi.

130. Pan fo cais yn cael ei ddychwelyd, bydd Llywodraeth Cymru'n nodi ei rhesymau dros wneud hynny. Pan fo cais wedi'i ailgyflwyno, er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen, mae'n cael ei ystyried yn arfer da i'r cynghorydd gyrfaedd (yn ogystal â diweddarau'r cais) ddarparu ymateb i Lywodraeth Cymru ynghylch y pryderon penodol a nodwyd.

Ceisiadau i ariannu estyniad i raglen astudio y cytunwyd arni

131. Mae sefydliadau AB arbenigol yn gyfrifol am asesu cynnydd person ifanc yn erbyn ei raglen astudio a'i ddeilliannau dymunol, ac i ystyried gyda'r person ifanc, ei riant/gofalwr a'i gynghorydd gyrfaedd perthnasol, a oes angen gwneud cais am estyniad i'r rhaglen y cytunwyd arni. Mae'r sefydliad AB arbenigol yn gyfrifol am gyflwyno cais am estyniad i Lywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'estyniad' yw estyniad amser i gwblhau'r rhaglen astudio wreiddiol y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w ariannu (sef 'y rhaglen a gytunwyd').
132. Dylid codi unrhyw bryderon neu broblemau ynglŷn â gallu person ifanc i gwblhau'r rhaglen astudio y cytunwyd arni mewn adolygiadau tymhorol yn y lleoliad a'u cofnodi yn eu hadroddiadau cynnydd. Pan fo cynghorwyr gyrfaedd yn mynd i'r adolygiadau tymhorol, dylent sicrhau bod ganddynt y wybodaeth fwyaf diweddar am y person ifanc, h.y. y rhaglen astudio y cytunwyd arni a'r hyd. Bydd hyn yn sicrhau y gall cynghorwyr gyrfaedd roi cyngor clir ar unrhyw drafodaethau am opsiynau'r person ifanc ar gyfer y dyfodol. Pan nad yw cynghorwyr gyrfaedd yn gallu bod yn yr adolygiad tymhorol dylent dderbyn copi o gofnodion yr adolygiad gan y sefydliad AB. Bydd hyn yn helpu gydag unrhyw drafodaethau pellach y gallai'r cynghorydd gyrfaedd eu cael am yr angen posibl am estyniad. Bydd angen i gynghorwyr gyrfaedd sicrhau bod y person ifanc, y rhiant/gofalwr a'r sefydliad AB arbenigol yn ystyried pob opsiwn arall wrth ystyried cais am estyniad.
133. Ni ddylai cynghorwyr gyrfaedd gynghori sefydliadau AB arbenigol i beidio â chyflwyno cais i ariannu estyniad. Dylai ond roi cyngor ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Y sefydliad AB arbenigol fydd i benderfynu a fydd yn cyflwyno cais am estyniad a Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu ar unrhyw gais mae'n ei dderbyn.
134. Mae'r canllawiau polisi'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y broses o wneud cais i ariannu estyniad (paragraffau 82-92).

Ceisiadau i ariannu rhaglenni astudio ychwanegol

135. Ar ôl cwblhau'r rhaglen astudio wreiddiol y cytunwyd arni, efallai y bydd angen i'r person ifanc gwblhau darpariaeth arbenigol ychwanegol. Dan amgylchiadau o'r fath, swyddogaeth y cynghorydd gyrfaedd ar y cyd â'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr yw ystyried y rhesymau dros raglen astudio ychwanegol.
136. Bydd Llywodraeth Cymru ond yn ariannu rhaglen astudio ychwanegol mewn unrhyw sefydliad addysg bellach arbenigol dan amgylchiadau **eithriadol**. Dyma enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol:

- pan fo safon yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer y sefydliad addysg bellach arbenigol wedi gostwng cymaint islaw'r safon sy'n ddisgwyliedig fel ei bod yn amlwg bod y sefydliad wedi methu darparu'r ddarpariaeth y sefydlwyd ei bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu Cynllun Dysgu a Sgiliau y person ifanc.
- pan fo amgylchiadau neu anghenion personol y person ifanc wedi newid i'r fath raddau nes iddynt fethu cael, neu golli manteision y Cynllun Dysgu a Sgiliau, gan effeithio'n andwyol ar eu gallu i ymwneud yn ystyron â'r rhaglen astudio a gytunwyd, ee oherwydd newid yn natur yr anabledd (dirywiad neu welliant sylweddol yn yr anabledd) neu o ganlyniad i brofiad trawmatig.

137. Cyn bod modd gwneud cais ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol, rhaid i Lywodraeth Cymru roi cydsyniad i gais i ddiweddarau asesiad adran 140. Rhaid i'r cais hwn ddangos beth sydd wedi newid yn amgylchiadau'r person ifanc i'r fath raddau bod angen diweddarau'r asesiad adran 140. Yn ddarostyngedig i'r cydsyniad hwn, nid oes gwarant o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen astudio ychwanegol (gweler yr adran ar 'Cais am/diweddariad i ffurflen asesiad 140' ar dudalen 18). Lle y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi caniatâd i gynnal yr asesiad, bydd cynghorwyr gyrfaedd yn cynnal yr asesiad hwn yn unol â'r canllawiau a bennwyd yn y ddogfen hon (gweler 'Llunio Adroddiad Asesu' ar dudalen 11).

138. Pan fo person ifanc ar hyn o bryd ym mlwyddyn olaf rhaglen astudio y cytunwyd arni, dylai cynghorwyr gyrfaedd, pan fo'n bosibl, fynd i'r cyfarfodydd adolygu bob tymor er mwyn sicrhau bod gan yr holl bartïon ddealltwriaeth glir o'r broses a'r amserlen ar gyfer gwneud cais am raglen astudio ychwanegol. Pan wneir cais am raglen astudio ychwanegol, disgwylir i'r cais i ddiweddarau'r Cynllun Dysgu a Sgiliau gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod adolygu hwnnw, hynny yw ar ôl tymor yr hydref, fel bod digon o amser i gynnal asesiad ac i gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau perthnasol (yn ddarostyngedig i gydsyniad Llywodraeth Cymru i'r cais adran 140).

139. Cynghorwyr gyrfaedd sy'n gwneud ceisiadau am arian ar gyfer rhaglenni astudio ychwanegol. Wrth wneud cais, o dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r cynghorydd gyrfaedd ddilyn y cyngor a nodwyd yn y ddogfen hon. Yn ogystal, mae'n **rhaid** iddo ddarparu gwybodaeth am:

- a) y rhaglen astudio flaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru
- b) beth a gyflawnwyd o dan y rhaglen astudio flaenorol
- c) unrhyw resymau eithriadol sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau y person ifanc (paragraff 136 uchod a pharagraff 93 o'r ddogfen bolisi)
- d) ystyriaeth a roddwyd i'r holl opsiynau eraill, a ddylai gynnwys cyfraniad gan bartïon â buddiant, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol a/neu Fyrddau Iechyd Lleol os oes ganddynt fuddiant uniongyrchol.

140. Pan fo Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydsyniad i Gyrfa Cymru gynnal asesiad adran 140 wedi'i ddiweddarau, ac nad yw'r canlyniad yn nodi darpariaeth mewn sefydliad addysg bellach arbenigol, nid oes modd i gynghorwyr gyrfaedd wrthod cyflwyno cais, ond dylent dynnu sylw person ifanc a'i riant/gofalwr at gynnwys dogfen canllawiau polisi Llywodraeth Cymru.

141. Nes bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch rhaglen astudio ychwanegol, dylai trefniadau pontio o fewn coleg a gydag asiantaethau allanol perthnasol barhau.

142. Gweler canllawiau polisi Llywodraeth Cymru am ragor o gyngor ar raglenni astudio ychwanegol (paragraffau 92-97).

Penderfyniadau

143. Bydd Llywodraeth Cymru'n cadarnhau gyda'r cynghorydd gyrfaedd, cyn gynted â phosibl, pan fydd wedi derbyn cais am gyllid a'r dystiolaeth ategol.

144. Ar ôl ystyriaeth gychwynnol, bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â'r cynghorydd gyrfaedd perthnasol i nodi a oes unrhyw bryderon a/neu ymholiadau pellach ynglŷn â'r cais. Bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio cysylltu â chynghorwyr gyrfaedd o fewn pythefnos i dderbyn y cais.

145. Bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud pob ymdrech i ddod i benderfyniad ar gais o fewn 6 wythnos, os bydd yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chyflwyno.

146. Dylai cynghorwyr gyrfaedd weithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer y person ifanc a'i riant/gofalwr gan y byddant wedi meithrin perthynas â nhw drwy broses asesu adran 140. Felly, dylai cynghorwyr gyrfaedd ymdrechu i hysbysu'r person ifanc a/neu ei riant/gofalwr am hynt y cais. Ni ddylai cynghorwyr gyrfaedd ddweud wrth y person ifanc neu'r rhiant/gofalwr i gysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod ymgeisio. Er bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd y person ifanc a/neu'r rhiant/gofalwr yn awyddus iawn i wybod canlyniad y cais, bydd gan gynghorwyr gyrfaedd yr un wybodaeth am hynt y cais/y sefyllfa â Llywodraeth Cymru. Bydd cynnal y berthynas honno gyda'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr yn cael gwared ar unrhyw straen diangen.

147. Pan gymeradwyir cais i ariannu lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at y person ifanc, y rhiant/gofalwr (lle bo'n briodol), y cynghorydd gyrfaedd, y sefydliad AB arbenigol ac asiantaethau perthnasol eraill i gadarnhau'r penderfyniad a beth sydd wedi'i gymeradwyo'n benodol, h.y. y rhaglen astudio, ei manylion a'r hyd benodol.

148. Bydd llawer o leoliadau mewn sefydliadau AB arbenigol yn cael eu hariannu ar y cyd ag asiantaethau eraill, fel y gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, pan fo cais wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, mae'r lleoliad hwnnw wedi'i sicrhau er gwaethaf unrhyw drafodaethau sy'n parhau rhwng yr asiantaethau sy'n darparu cyllid ynghylch y cyfraniadau ariannol sy'n ofynnol. Gwaith yr ymgynghorwyr gyrfaedd fydd tawelu meddyliau rhieni sydd â phryderon ynghylch y modd yr ariennir lleoliadau o'r fath.

149. Ar ôl y cadarnhad hwn, rhaid i'r cynghorydd gyrfaedd ddarparu copi o Gynllun Dysgu a Sgiliau terfynol y person ifanc i'r sefydliad AB arbenigol fel y gall sicrhau'r trefniadau cymorth angenrheidiol.

150. Pan na chymeradwyir cais i ariannu lleoliad mewn sefydliad AB arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at y person ifanc, y rhiant/gofalwr, y cynghorydd gyrfaedd, y sefydliad AB arbenigol ac asiantaethau perthnasol eraill i gadarnhau'r penderfyniad a darparu rhesymau.

Apelio yn erbyn penderfyniadau Llywodraeth Cymru

151. Os yw person ifanc neu riant/gofalwr am apelio i Lywodraeth Cymru i adolygu penderfyniad a wnaed, dylent gyflwyno cais o fewn 28 diwrnod gwaith i ddiwrnod y penderfyniad gwreiddiol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn nodi'r penderfyniad sy'n destun apêl a'r rhesymau dros yr apêl. Mae ffurflen 'Apêl Ffurfiol' ar wefan Llywodraeth Cymru¹³. Mae rhagor o wybodaeth yn nogfen canllawiau polisi Llywodraeth Cymru.
152. Nid yw cyflwyno apêl i Lywodraeth Cymru ar ran y person ifanc yn rôl nac yn gyfrifoldeb penodol i'r cynghorydd gyrfaedd ond pan fo'n rhesymol gwneud hynny disgwylir i'r cynghorydd gyrfaedd ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r person ifanc neu'r rhiant/gofalwr pan fo angen.
153. Pan fo apêl yn cael ei wneud i Lywodraeth Cymru, gall gysylltu â'r cynghorydd gyrfaedd perthnasol i gael ei farn/tystiolaeth ategol ychwanegol (pan gyflwynir dystiolaeth o'r fath). Mewn perthynas ag apelau ynghylch ceisiadau am ddarpariaeth arbenigol, mae'n bwysig fod y cynghorydd gyrfaedd yn lleisio'i farn ynghylch p'un a yw'r apêl a/neu'r dystiolaeth ychwanegol yn newid ei argymhelliad gwreiddiol ynghylch y ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion y person ifanc o ran addysg a hyfforddiant.

